

Rhif 206 EBRILL – MAI 2017

AM  
DDIM

# Gwyliedydd



CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD



# BWYD I'R MEDDWL

gan BET HOLMES

Yn ein siopau heddiw, mae'n bosib prynu bwydydd o bedwar ban y byd, bob wythnos o'r flwyddyn: mefus amser Nadolig a phannas yng nghanol yr haf. Pan oeddwn i'n blentyn, beth bynnag, roedd cynnyrch yn cyrraedd y silffoedd yn ôl ei dymor. A pha mor dda oedd y tato newydd! Nawr mae popeth yn cael ei storio am wythnosau, neu fisoedd hyd yn oed, ac mae blas ffres y tir wedi diflannu.

Ydym ni'n cymryd ein bwyd yn ganiataol? Popeth ar gael, yn hawdd ac yn gymharol rad. Nid felly oedd hi yn yr hen ddyddiau. Tan ddiwedd y ddeunawfed ganrif, buasai'r anifeiliaid wedi cael eu lladd cyn y gaeaf, heblaw am y da bridio. Ar ddiwedd y gaeaf, doedd dim llawer o ddim yn y cwpwrdd: dim cig, dim wyau, dim cynnyrch llaeth. A dyma un rheswm am beidio â bwyta'r pethau hyn yn ystod y Garawys. Rheswm arall, wrth gwrs, oedd y cyfle i Gristnogion ymprydio am ddeugain dydd a deugain nos, fel y gwnaeth yr Iesu yn yr anialwch. A pha mor dda oedd gwledda'r Pasg wedyn! Byddai plant Israel yn bwyta oen cyfan i ddathlu *Pesach*, ac nid oedd hawl gyda nhw i gadw dim tamaid ar ôl. Roedd yn rhaid i'r teulu fwyta popeth, neu daflu'r gweddillion!



*Y Super yn Emaus gan Caravaggio*



Rydym ni yma yng Nghymru yn ffodus iawn am fod y cig oen gorau yn y byd gyda ni, felly nid oes llawer o drafferth wrth ddewis ein prif saig. Ond beth am y pwddin? Dyma ddantaith traddodiadol o Rwsia, *Pashka*. Mae'r caws gwyn yn symboleiddio purdeb Crist a byddai siâp traddodiadol pyramid (symbol yr Eglwys) yn cael ei addurno â'r llythrennau Syrilig X a B, sef dechrau'r geiriau 'Crist a atgyfododd'. Byddai pobl yn dod â'u *Pashka* i'r Eglwys ar noswyl y Pasg er mwyn cael eu bendithio.

## Bydd arnoch angen:

- Melyn 3 wy
- 240ml hufen chwipio
- 120g siwgr mân
- 60g mêl meddal
- 1 llwyaid de rhinflas fanila
- 990g caws meddal
- 60g menynd heb halen
- 100g ffrwythau sych
- 50g creision almon.

Paratowch fowld trwy leinio pot blodau (glân!) gyda mwslin, a'i ddodi dros badell i ddiferu.

Cymysgwch yr wyau a'r hufen mewn sosban, wedyn ychwanegwch y siwgr a'r mêl, a'u cynhesu ar dân isel iawn, nes y bydd yn gorchuddio cefn llwy. Byddwch yn ofalus i beidio â cheulo'r wyau. Ychwanegwch y fanila, a'i adael i oeri.

Wedyn, blendiwch y caws a'r menynd tan yn hollol lyfn. Cymysgwch y rhain i mewn i'r cwstard yn ofalus, a'i arllwys i mewn i'r mowld.

Gadewch yn yr oergell am 24 awr cyn ei droi allan ar ddysgl. Addurnwch â cheirios *glacé*, ffrwythau ac almonau.

# Gwyllydydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU

YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

RHIF 206

EBRILL - MAI 2017

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARNY CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR  
YN YR EITEMAU UNIGOL**

**Golygyddion:**

**ROBIN JONES**

LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI

BETHEL, CAERNARFON

GWYNEDD LL55 1BX

Ffôn: 01248 670140

symudol: 07780869907

e-bost:

robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**

CRUD YR AWEL

LÔN NEWYDD COETMOR

BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT

Ffôn 01248 605365

e-bost:

ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

*Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion*

**DYDDIAD CAU:**

**1 MAI, 2017**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i

**“Yr Eglwys Fethodistaidd –  
Talaith Cymru”**

Argraffwr:

Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018

**Llun y clawr gan  
Lyudmyla Kharlamove**

## RHODDION

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyllydydd.

**EDRYCHWN YMLAEN AT  
DDERBYN TANYSGRIFIADAU  
AR GYFER 2017 PAN FYDD YN  
HWYLUS I CHI.**

Dr a Mrs R. Telfryn  
Pritchard, Evesham .. £40-00  
Mrs A.M. Edwards,  
Llanfairtalhaearn ..... £20-00  
Cyfanswm ..... £60-00

# OR GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig JENNIFER HURD

Glywsoch chi erioed am y gair Saesneg ‘Cirplanology’? Na finnau chwaith, nes i'r Dr Lionel Madden, Aberystwyth, grybwyll y gair. ‘Cirplanology’ yw astudio Planiau Pregethu Cylchdeithiol yr Eglwys Fethodistaidd. Un sydd â diddordeb mewn Planiau yw ‘Cirplanologist’. Rhai yn casglu stampiau neu gardiau post, eraill yn casglu Planiau Cylchdeithiol! Fel dogfennau hanesyddol, maen nhw'n bwysig iawn, wrth reswm, ond fel arteffactau, dydyn nhw ddim fel rheol yn rhyw atyniadol iawn. At ei gilydd, yr hyn a gawn ar glawr blaen Plan yw ffeithiau - enwau'r gweinidogion, manylion cyswllt ac ati.

Dydyn nhw ddim yn bert neu'n artistig, ddim yn denu'r llygad.

Fel rheol, ynte...

Mae bob amser eithriadau sy'n profi'r rheol! Un eithriad o'r fath yw Plan Ardal Dyffryn Conwy Cylchdaith Cymru, sydd bob amser â llun hyfryd ar y clawr.



Y llynedd, roedd ffotograff yn dangos y môr a'r haul yn codi. Eleni wedyn, cawn lun o waith y Diacon Jonathan Miller, Arweinydd Ardal Dyffryn Conwy, sydd yn arlunydd talentog iawn. Uwchben y geiriau o Efyngyl Ioan (Ioan 13: 14-15), gwelwn draed a dŵr yn cael ei dywallt o letwad i mewn i fasn, gan olchi un o'r traed. Mae'n ddelwedd bwerus iawn, sy'n ein hatgoffa nid yn unig o alwedigaeth a gwasanaeth arbennig Urdd y Diaconiaid, urdd gweinidogaeth Jon, ond am esiampl Iesu Grist ei hunan i'w ddisgyblion ar y nos y bradychwyd ef.

A ninnau bellach yn mynd ymlaen trwy dymor y Grawys tuag at yr Wythnos Fawr a'r Pasg, mae llun Jon yn cynnig rhywbeth inni ei ystyried a myfyrio arno. Fel gweinidog, cefais gyfle i olchi traed aelodau'r gynulleidfa fel rhan o wasanaeth Dydd Iau Cablyd; gwelais esgob hefyd yn golchi traed mewn gwasanaeth tebyg mewn Eglwys

Gadeiriol. Ond mae'n siŵr fod y profiad hwnnw'n bur wahanol i'r hyn a ddisgrifiodd fy mam wrthyf wrth sôn am ei phrofiad fel nyrs ifanc o olchi traed hen grwydriaid a ddeuai i'r ysbyty fel cleifion. Cwbl wahanol i brofiad yr Iesu hefyd, buaswn i'n meddwl: dychmygwch draed y disgyblion wedi iddynt gerdded drwy'r dydd mewn sandalau, ar hyd ffyrdd llychlyd. Pwy fuasai'n dewis eu golchi? Dyna a wnaeth Iesu, gan osod esiampl i ni ar gyfer gwasanaethu ein gilydd – yn feddylgar, yn hael, yn raslon ac yn anhunanol.

Wrth i ni barhau fel Synod Cymru i ganolbwyntio yn ein capeli a'n Hardal-oedd ar drydedd thema ein prosiect “Datblygu Ein Galwad”, sef gwasanaethu, tybed a allwn ni i gyd wneud rhywbeth bach yn ychwanegol i'r arfer, i wasanaethu ein cymdogaion yn y tymor sanctaidd hwn? Er enghraifft, beth am ddsbarthu Byns y Grog tu allan i'r capel i bobl sy'n mynd heibio ar Ddydd Gwener y Groglyth, neu fynd ag ychydig o flodau'r gwanwyn at y rhai sy'n byw ger y capel ar Sul y Pasg? Mae'r gwanwyn yn dymor sy'n cael ei gysylltu â glanhau: beth am godi ysbwriel yn y strydoedd o gwmpas y capel, a glanhau'r strydoedd tipyn bach? Buasai'n codi calon pawb ac yn ffordd o wasanaethu ein cymdogaion. Yr unig ffin yw ein dychymyg! Meddylwch pa newid yr hoffech ei weld yn eich cymdogaeth – mae'n bur debyg yr hoffai eraill weld yr un peth! Bydd gwneud rhywbeth fel hyn yn arwydd o'r bywyd newydd yn Iesu Grist yr ydym yn ei ddathlu adeg y Pasg ac yn gyfle i ddilyn esiampl Iesu, a olchodd draed ei ddisgyblion.

Mae gwasanaethu yn digwydd mewn llawer dull a modd. O'r person sy'n rhoi dŵr yn y pulpud ar gyfer y pregethwr i'r un sy'n dysgu yn yr Ysgol Sul, o'r trysorydd sy'n gofalu am arian y capel i'n gweinidogion sydd wedi dod o Loegr ac sy'n dysgu'r iaith er mwyn cyfrannu tuag at barhad addoliad yn ein henwad trwy gyfrwng y Gymraeg, mae gan bawb ei ran i'w chwarae ym mywyd y capeli yn ogystal ag ym mywyd y gymuned.

Y peth pwysig yw ei wneud yn ysbyrd ein Harglwydd Iesu, a olchodd draed ei ddisgyblion, y nos y bradychwyd ef, y nos cyn iddo fo gael ei groeshoelio, cyn Sul y Pasg a'i atgyfodiad i fywyd newydd, ei rodd i ni i gyd.

Diolch iddo am ei esiampl a'i gariad. Bendithion y Pasg i chi!

# CNOI CIL

gan GWYNDAF ROBERTS

Yn y flwyddyn 43 Oed Crist hwyliodd byddin o 40,000 o ddynion o dan Aulus Plautius ar draws y Sianel a glanio yn ne ddwyrain Ynys Prydain. Erbyn OC 47 roedd rhan sylweddol o'r wlad wedi'i choncro ond bu rhaid disgwyl tan y flwyddyn 60 cyn y llwyddodd y Rhufeiniaid i ddifa derwyddon Ynys Môn a chwala'r llanerchau sanctaidd.

Fe gredir i rai o Geltiaid tir mawr Ewrop ymfudo i Brydain oddeutu 600 Cyn Crist ac i ddiwylliant y newydd ddyfodiaid ymledu ymhlith y trigolion blaenorol. Nid yn unig y bu ganddynt ddylanwad crefyddol ar y wlad ond daeth yr iaith Frythoneg i fodolaeth yn y cyfnod hyd at eni Iesu Grist. Fe arhosodd y cof am yr hen dduwiau yn hir iawn yn y tir ac mae awgrym bod yn eu plith gred am un ysbryd dwyfol. Erys y cof am eu duwiau yn yr enwau Nudd, Lleu a

## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion, sydd wedi dod i law ers dechrau 2017, tuag at Gweithredu dros Blant:

Bathafarn, Rhuthun – casgliad Nadolig;

Ebeneser, Eglwysbach;

Cynfaen, Calcoed – Oedfa Garolau;

Eirian, Alwyn a Wyn a'r teuluoedd – er cof annwyl am y Parchg. Gwylfa H a Mrs Doris Morgan;

Gareth, Hywel a'r teuluoedd – er cof annwyl am Parchg Arthur Ll. a Mrs Cavel Williams;

Geraint a'r teulu – er cof annwyl am y Parchg. Clifford a Mrs Lillian Roberts;

Cissie, Marian a'r teulu – er cof annwyl am Arthur Hughes, Croesoswallt;

Ann, Nia, Bethan a'r teulu – er cof annwyl am Y Parchg. Williams O Thomas.

Anfonwyd cyfanswm o £230.50 yn enw Synod Cymru.

Cyn y Nadolig codwyd y swm o £152 gan blant Ysgol Merllyn, Bagillt trwy wisgo siwmperi Nadoligaidd i'r ysgol. Dymuniad yr ysgol oedd ychwanegu'r casgliad at yr hyn a gasglwyd er cof am Mrs Megan Wall – mae Eleri, merch Megan yn dysgu yn yr ysgol. Mae hyn yn dod a'r cyfanswm a drosglwyddwyd i *Gweithredu dros Blant*, er cof am Megan i £846.73.

Gyda diolch am bob cyfraniad, *Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan*

Mabon sydd ar gael yn y Gymraeg heddiw.

Ni wyddom yn union pryd y daeth Cristnogaeth i Gymru gyntaf ond erbyn i Rufain golli gafael ar Brydain yn y flwyddyn 410 roedd cenhadon Cristnogol ar waith ymhlith y Brythoniaid. Brythoneg oedd iaith y wlad yn 400 ond erbyn 700, Cymraeg oedd iaith y trigolion. Yn y cyfnod hwn hefyd roedd Cristnogaeth wedi cael gafael cadarn ar y tir ac am ganrif a mwy o'r flwyddyn 500 ymlaen fe wawriodd Oes y Saint.

O'r Aiff y daeth yr arfer o feudwyaeth ond yma datblygodd y celloedd o bridd a choed i fod yn ganolfannau addoliad ac addysg ac yn llecynnau cysegredig i gladdu'r meirw. Er na chodwyd eglwysi parhaol ar y safleoedd hyn y pryd hynny, dyma oedd y llecynnau a ddaeth yn Llannau ganrifoedd wedyn.

Lladin oedd iaith crefydd o'r llannau syml i'r canolfannau mwy megis Glyn Rhosyn yng nghyfnod Dewi Sant. Er mai'r drefn Babyddol a ddilynwyd o'r dechrau roedd nodweddion 'Celtaidd' i'r eglwys ar dir Cymru. Pan ddaeth Awstin, ar gais y Pab, i Gaergaint yn 597 i ennill y Saeson i Grist, ni dderbyniodd y Cymry ei awdurdod drostynt er bod Gregori Fawr wedi deddfu'n swyddogol yn 603 mai Awstin oedd pennaeth yr eglwys ym Mhrydain. Roedd yr anghydfod yn dal i fudlosgi pan ysgrifennwyd Buchedd Dewi gan Rhygyfarch fel rhan o'r cais i amddiffyn annibyniaeth Tŷ Ddewi rhag awdurdod Caergaint.

Dal ei thir wnaeth yr Eglwys Gatholig er i Gymru ddiodeff ymosodiadau o sawl cyfeiriad gan gynnwys ymgyrchoedd y Saesiaid a'r Llychlynwyr yn eu tro. Pan gonerwyd Prydain gan y Normaniaid yn 1066 daeth trefn boliticaidd a chrefyddol newydd i fodolaeth. Ymhen canrif roedd eglwysi cadeiriol wedi'u codi a'r rhan fwyaf o'r mynachlogydd wedi'u sefydlu. Daeth y plwyfi i fodolaeth yr un pryd ac o dan y drefn esgobol fe fu hi'n bosib gorfodi awdurdod Caergaint ar yr holl wlad.

Dyna'r drefn a barhaodd yn lled llwyddiannus nes i Harri'r VIII, wedi'i helyntion priodasol gyda Catrin o Aragon, sicrhau deddf yn Nhachwedd 1534 a'i gwnaeth yn bennaeth ar Eglwys Loegr (a Chymru). Canlyniad hyn oedd i'r Pab ei esgymuno o'r Eglwys Babyddol. Dyma'r brenin a oedd yn 1521 wedi cyhoeddi llyfr yn amddiffyn saith sacrament Eglwys Rhufain rhag ymosodiadau Luther yn 1517 ac a barodd i'r Pab roi iddo'r teitl 'Fidei Defensor' sef amddiffynnydd y ffydd!

Un o ganlyniadau'r ysgaru crefyddol hwn oedd yr ymgyrch i ddiddymu'r mynachlogydd. Erbyn cyfnod Harri'r VIII, tai bychain oedd abatai Cymru gydag incwm o £3000 rhyngddynt. Roedd eu hoes aur wedi bod yn y dilyn y Pla Du, 1348-50, collwyd incwm a dylanwad. Yn dilyn ymosodiadau Owain Glyndŵr (1400-1415) roedd y rhan fwyaf o'r abatai

mewn stad ddrwg iawn. Wrth i'r tai geisio cynilo, peidiodd yr arfer o gynnig addysg a lletygarwch ac nid oedd arfer rhai o'r abadau i briodi a chael plant yn dderbyniol gan yr awdurdodau na'r werin. Er mai Lladin oedd iaith addoliad nid oedd trefn ar gael i addysgu offeiriaid yn ddigonol. Mewn mwy nag un man byddai plant yr offeiriaid yn gweinyddu yn lle eu tad ond gan nad oeddynt wedi derbyn addysg ffurfiol, gafael gwan iawn oedd ganddynt ar ystyr y geiriau a ddefnyddiwyd ganddynt. Fe adroddir am un plwyf lle nad oedd yr offeiriad yn gallu adrodd Gweddi'r Arglwydd o'i gof. Nid oedd y werin yn ymddwyn yn briodol chwaith. Ceir sôn am addolwyr yn osgoi'r bregeth gan chwarae pêl y tu allan i'r eglwys ond yna heidid i mewn wrth glywed rhywun yn gweiddi bod y sacrament ar fin dechrau.

Nid yw'n syndod felly i Harri'r VIII lwyddo i ysbeilio'r mynachlogydd yn ddirwystr ac i Eglwys Loegr Brotestannaidd sefydlu heb ormod o wrthwynebiad. Fe fu ymgais yn ystod teyrnasiad byr Mari i adfer yr hen ffydd ond gyda'i marwolaeth hi yn 1558 daeth cyfle olaf yr Eglwys Gatholig i ddal gafael ym Mhrydain i ben.

Er mai Eglwys Loegr oedd yr Eglwys Brotestannaidd gyntaf ym Mhrydain, fe gododd eraill y faner hefyd. Fe fu'r Piwritaniaid yn weithredol yma a bu'r hen Annibynwyr a'r Bedyddwyr cynnar ar y tir. Wynebodd y bobl hyn erledigaeth gyda rhai fel y Crynwyr yn chwilio am ryddid mewn gwlad arall. Erbyn 1735 roedd Cymru yn aeddfed am ddiwygiad arall a daeth hwnnw yn dilyn gwaith Hywel Harris ac eraill. Priodol felly ym mlwyddyn dathlu tri chanmlwyddiant geni William Williams Pantycelyn a dechrau'r Diwygiad Brotestannaidd trwy weithredoedd Martin Luther bum canrif yn ôl, yw cofio am yr eneidiau dewr hynny o bob enwad ac eglwys a aberthodd eu bywydau dros Efengyl Iesu Grist.

CYMDEITHAS HANES  
YR EGLWYS FETHODISTAIDD

## PERERINDOD: COFIO TEGLA 20 MAI 2017

Dewch i gofio bywyd a chyfraniad y Parchedig Ddr E. Tegla Davies (1880-1967), un o weinidogion yr Eglwys Fethodistaidd a llenor nodedig iawn.

Ymgynnull yn **Shiloh, Tregarth am 12 o'r gloch**. Pawb i ddod â thamaid o ginio ac fe ddarperir paned. Cewch gyfle i gymdeithasu, gweld capel hardd Shiloh (a "chadair Tegla") ac ymweld â bedd Tegla. Ar ddiwedd y daith, bydd bywyd wedi'i drefnu am bris rhesymol.

**Am 2 o'r gloch y prynhawn yng nghapel Shiloh, bydd darlith gyhoeddus ar fywyd a gwaith Tegla gan y Parchedig Ddr. Huw John Hughes, Porthaethwy. Croeso cynnes i bawb ddod i'r ddarlith.**

Enwau i'r trefnydd, Robin Jones  
ffôn 01248 670140 neu drwy e-bost  
[robinbethel@tiscali.co.uk](mailto:robinbethel@tiscali.co.uk) cyn gynted â phosib  
os gwelwch yn dda er mwyn hwylyso'r trefniadau  
bywyd a.y.y.b.

# Cynhadledd Diogelu

gan y Diacon Stephen Roe

Ym mis Ionawr eleni, aeth Jennie a finnau i Gynhadledd Diogelu yn Wakefield, Swydd Efrog. Cynhelir y Gynhadledd yn flynyddol ac fel rheol bydd yn cael ei chyd-drefnu rhwng yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Anglicanaidd. Eleni, fodd bynnag oherwydd fod yr Anglicaniaid yn rhan o'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, Methodistiaid oedd y rhan fwyaf o'r rhai oedd yn bresennol. Yn 2013-14 trefnwyd Adolygiad o Achosion Hanesyddol Diogelu gan yr Eglwys Fethodistaidd, pan wahoddwyd pob aelod o'r Eglwys i rannu gwybodaeth am unrhyw achos ym maes diogelu yr oeddent yn ymwybodol ohono ac a oedd wedi achosi pryder iddynt, ers 1950. Yn dilyn y broses, apwyntiwyd pwyllgor bach i ystyried y canlyniadau ac adrodd yn ôl i'r Gynhadledd Fethodistaidd gan wneud argymhellion sut y dylid gwneud yr eglwys gyfan, a'n capeli lleol, yn llefydd mwy diogel yn y dyfodol. Derbyniwyd a mabwysiadwyd pob argymhelliad yn y Gynhadledd yn 2015, ac un o'r casgliadau oedd nad ydym wedi

bod yn dda am wrando ar oroeswyr cam-drin na chwaith wedi sylweddoli yr effaith tymor hir ar oroeswyr. Gan hynny, prif thema'r Gynhadledd eleni oedd Ymateb yr Eglwys i Oroeswyr Cam-drin.

Yn ystod y Gynhadledd clywsom gan nifer o academyddion a gyflwynodd i ni ganlyniadau eu hymchwil yn y maes hwn. Cadarnhaodd un ohonynt rywbeth yr oeddem eisoes yn ymwybodol ohono, sef ei bod yn haws i gam-drin ddigwydd o fewn eglwysi a chapeli oherwydd y grym a'r statws sydd gan weinidogion ac arweinwyr eraill yn y capel a'r gymuned; oherwydd nad ydym ni'n hapus i siarad am y berthynas rhwng ffydd a rhyw; ac oherwydd ein bod yn rhy gyflym i faddau, gan anghofio am gyfiawnder. Cawsom gyflwyniad hynod o ddiddorol gan ddau gyfreithiwr sydd yn cynghori ysgolion, eglwysi, clybiau chwaraeon ac yn y blaen ynglŷn â sut i sicrhau na fydd cam-drin yn digwydd, trwy arferion da, a sut i ymateb yn dda os bydd pethau yn mynd o chwith. Clywsom hefyd gan rywun a wnaeth ymchwil trwy gynnal cyfweiliadau efo troseddwyd, gan ofyn iddynt nid yn unig 'pam wnaethon nhw

gam-drin eraill' ond 'sut wnaethon nhw lwyddo i'w wneud'. Ond y ddau a wnaeth yr argraff fwyaf arnaf i oedd dau a gafodd eu cam-drin tu fewn i'r Eglwys nifer o flynyddoedd yn ôl, ac a oedd yn ddigon dewr i sefyll i fyny o'n blaenau a dweud eu stori.

Roedd un thema gyffredin yn rhedeg trwy bob cyflwyniad sef ei bod yn anarferol i gam-drin ddigwydd yn gwbl annisgwyl. Ar ôl i gam-drin ddod i'r amlwg, bydd rhywrai yn dweud pethau fel, 'O'n i'n amau bod rhywbeth amdano/amdani, ond doedd dim byd o'n i'n gallu rhoi fy mys arno, felly ddwedais i ddim byd', neu, 'O'n i wedi sylwi nad oedd o/hi yn cadw at y canllawiau, ond dim ond pethau bach oedden nhw, felly chodais i mo'r mater.' Felly, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â materion diogelu yn eich capel neu eich Ardal, siaradwch efo fi, neu â'ch gweinidog, neu â'r Parchedig Jennie Hurd.

Yn olaf, cawsom ychydig o amser i ymlacio yn ystod y Gynhadledd, ac un peth wnes i ei ddysgu oedd: os ydych chi eisiau gwybod rhywbeth am gerdd-oriaeth bop yn y 70au neu'r 80au, cysylltwch â'n Cadeirydd!

Stephen Roe, Swyddog Diogelu, Synod Cymru, Ffôn: 01341 388739.  
e-bost: stephen.roe@methodist.org.uk

## Cymry Cymraeg o Ddewis

gan Alison Woodbridge

Beth yn union ydy Cymro neu Gymraes? Oes rhaid i chi siarad Cymraeg? Mi ddechreuais i (a fy ngŵr, Alan) ddysgu "iaith y nefoedd" cyn i ni symud i Gymru, bron 27 mlynedd yn ôl. Rydym yn dal i siarad digon o Saesneg gyda'n gilydd, ond rydym yn defnyddio tipyn o Gymraeg hefyd gartref. Tu allan, rydym yn siarad Cymraeg gyda Chymry Cymraeg a dysgwyr. Rwy'n gweithio fel tiwtor Cymraeg i Oedolion rhan-amser ac mae Alan yn defnyddio'r ddwy iaith yn ei waith fel Ymgynghorydd Busnes. Rydym yn ystyried ein hunain yn Gymry Cymraeg o ddewis, felly.

Pam y symudodd cwpl ifanc gyda dau o blant bach a babi ar y ffordd, o ardal gyfoethocaf Prydain i fyw yn Nolgellau, yn un o gadarnleoedd y Gymraeg? A oeddem yn deall y gwahaniaeth mawr rhwng Cymru wledig a De Loegr? Oeddem - i ryw raddau, o leiaf! Roedd Alan wedi syrthio mewn cariad â Chymru pan ddaeth yma ar drip Daear-yddiaeth gyda'i ysgol ac yng Nghymru wnaethon ni ddyweddio pan oedden ni ar wyliau yn Sir Benfro, yn 1981. Mi wnaethon ni briodi yn 1982 a symudais o Chesterfield i Maidenhead, ger Windsor. Ar ôl blwyddyn, aethon ni i'r Barri, i astudio yng Ngholeg Beiblaidd De Cymru, ond dim ond am flwyddyn



wnaethon ni aros yno. Aethon ni yn ôl i Maidenhead ac i eglwys y Bedyddwyr lle roedden ni'n aelodau. Doedd drws Cymru ddim yn agored i ni eto.

Erbyn 1990 roedd gennym ni fachgen o'r enw Caleb, pedair oed, a merch dwy oed, sef Rebekah. Roedd babi arall ar y ffordd a doeddwn i ddim yn gwybod sut y buaswn yn ymdopi â mudo i Gymru, heb sôn am blentyn arall, ond roedd Duw yn ffyddlon. Atebodd lawer o weddiau a symudon ni i Ddolgellau ar ddiwedd mis Mawrth 1990. Roeddwn innau wedi syrthio mewn cariad â Chymru erbyn hyn ac roedden ni'n hollol siŵr fod Duw yn ein harwain ni yma.

Roedden ni eisiau cefnogi capel

efengylaidd bychan Pendref Chapel (dim ond tua chwech o bobl oedd yn mynychu'r capel ar y pryd) a helpu'r aelodau i rannu'r Newyddion Da. Aethon ni ati i ddysgu'r Gymraeg trwy gyfres "Now You're Talking" ar y teledu, trwy ddsbarthiadau nos i Alan (roedden ni'n mynd dros y gwersi gyda'n gilydd wedyn) a thrwy siarad â phobl leol. Roedden ni'n rhedeg busnes Gwely a Brecwast ar y pryd ac roedd Alan yn rhedeg siop lyfrau Cristnogol yn rhan-amser hefyd ac yn helpu gyda thri o blant erbyn hyn, ond rhoddodd ein Tad Nefol y cymorth i ni i ddysgu'r iaith.

Yn anffodus, doedd Pendref Chapel ddim yn medru parhau (stori arall ydy honno) a phenderfynon ni deithio i gapel efengylaidd Saesneg yn y Bala. Dyna ein cartref ysbrydol am tuag 20 mlynedd ond flwyddyn a hanner yn ôl, dyma ni yn penderfynu mynd i Gapel Ebeneser yn Nolgellau. Mae Alan yn dod o gefndir Methodistiaidd ond doedd gennyf fi ddim profiad o'r Methodistiaid o gwbl, (ar wahân i fynd i gyfarfodydd yng Ngholeg Cliff pan oeddwn yn fy arddegau) ond mi gawson ni groeso cynnes gan yr aelodau. Roedden ni wedi sylweddoli (o'r diwedd!) nad oedd hi ddim yn iawn i ni gario ymlaen heb gael cymdeithas gyda'r Cristnogion sydd yn byw o'n cwmpas. I mi yn bersonol, roedd y newid yn eithaf anodd, ond rydym wedi dod yn aelodau swyddogol rŵan. Rydym yn mawr obeithio y byddwn ni'n medru cyfrannu i dwf ysbrydol Capel Ebeneser.

# Gobaith

gan y Parchedig J. Bryn Jones

Un o eiriau pwysicaf yr Apostol Paul yn ei lythyrau yw Gobaith. Ni fyddai mae'n debyg wedi mentro ar ei deithiau cenhadol pe na bai yn obeithiol y gwelai ffrwyth ei lafur; dyma'n union a ddigwyddodd pan sefydlodd yr eglwys i sonia amdanynt yn ei lythyrau.

Yn ei emyn (1 Cor. 13) i Ffydd, Gobaith a Chariad, rhoes Paul bwyslais ar y gair Cariad fel y nodwedd bwysicaf yn y drindod honno. Ac eto, byddai Paul yn cydnabod nad yw yr un o'r tri gair yn sefyll ar ei ben ei hun, oherwydd mae'r tri yn perthyn i'w gilydd; yn syml iawn, mae'r naill yn cynnal y llall, fel petai –

a hebbynt byddai neges yr Efengyl yn gwbl anghyflawn.

Dyma rai o golofnau Cristnogaeth, yn wir: Ffydd, Gobaith a Chariad. Gallwn ddiwinydda wrth feddwl am y gwahanol agweddau arnynt ond, ar yr un pryd, mae'n rhaid wrth sylfaen. Dyna a ddysgodd Iesu i ni wrth sôn am y ddau adeilad – y naill wedi'i adeiladu ar dywod a'r llall ar graig. Pan ddaeth y llifogydd, syrthiodd y tŷ ar dywod, oedd heb sylfaen (Luc 6: 46-49). Oes, mae angen diwinyddiaeth ac athrawiaeth ond nid yw hynny'n ddigon; mae'r ochr ymarferol yr un mor bwysig.

Er bod yr Apostol yn pwysleisio pwysigrwydd credu ac ymddiried yng Nghrist, mae'r un mor bwysig ymarfer y ffydd yn ddyddiol. Mae digon o gyfleoedd i wneud hynny yn y byd sydd ohoni, a chynifer o'n brodyr a'n

chwiorydd yn dioddef yn enbyd. Clywsom yr hanes am waith da y Fam Teresa ymhlith y newynog a'r digartref ar strydoedd Calcutta. Wrth iddi borthi'r newynog, dywedodd fod Crist yn edrych drwy ei llygaid, yn gweithio â'i dwylo – ac mae'r un peth yn wir amdanom i gyd wrth inni fel Cristnogion dystio i ochr ymarferol ein ffydd. Mae'n dda gwybod bod pob cyfraniad a wnawn fel unigolion neu eglwys i elusennau megis 'All We Can' (elusen y Cyfundeb Methodist-aid), neu Cymorth Cristnogol ac yn y blaen – boed fach neu fawr – yn galluogi'r gweithwyr gwirfoddol ac eraill i barhau â'u gwaith o helpu'r tlawd a'r anghenus.

Diolch am barodrwydd y bobl hynny sy'n peryglu eu bywydau eu hunain i helpu eraill ... dyma ddwylo a llygaid Crist yn y byd cyfoes.

pryd bynnag a lle bynnag rydw i eisiau (o fewn rheswm!) Ac os byth y canfyddaf fy hun ar ynys bellennig heb neb arall ar ei chyfyl, yna bydd gennyf holl arfogaeth Pantycelyn ger llaw.

Peth arall garwn ei wneud fyddai mynd ar bererindod i Bantycelyn ei hun – mae blynyddoedd ers pan fûm yno ddwytha. Fe dalodd Williams yn ddrud am ochri efo'r Methodistiaid. Gallai fod wedi cael bywyd digon cyfforddus yn offeiriad ar ryw blwyf. Ond oherwydd ei weithgareddau Methodistiaid, gwrthodwyd urddau offeiriad iddo. Treuliodd weddill ei oes yn bregethwr teithiol, yn teithio filoedd o filltiroedd ar gefn ei geffyl.

Gorffennaf gyda'r emyn cyntaf i mi ei dysgu ar fy nghof eleni, sydd â diweddglu bendigedig o obeithiol,

'Cyfoeth mawr di-drai difesur  
Sydd ynghadw imi'n stôr,  
A bendithion, oll pe rhifid,  
Megis tywod mân y môr.'

'Esgyn a wnaeth i entrych nef  
I eiriol dros y gwan;  
Fe sugna f'enaid innau'n lân  
I'w fynwes yn y man.'

Onid yw'r iaith yn ddramatig? Beth gewch chi sy'n gryfach na'r ddelwedd o 'sugna f'enaid innau'n lân'? Ac yna, gallwn ni, gymeriadau gwael y llawr sydd mor aml yn ansicr a gwan eu ffydd, ganu

'Ac yna caf fod gydag Ef  
Pan êl y byd ar dân,  
Ac edrych yn ei hyfryd wedd,  
Gan harddach nag o'r blaen.'

Dyna i chi sicrwydd. Ac yn y dyddiau modern hyn, maent yn dal yn enbyd o berthnasol.

Rydw i wedi penderfynu dysgu un o emynau Pantycelyn ar fy nghof bob wythnos am 2017. Dyna'r bwriad beth bynnag, ac mae'n un ffordd o ddathlu'r tri chan mlwyddiant.

Pam cyfyngu'r canu i oedfaon ar ddydd Sul? O'i dysgu ar fy nghof, gallaf ei canu



Pantycelyn. Hawlfraint y llun: John Lord

# O'R PEN YMA

gan ANGHARAD TOMOS



Yn aml iawn, yn enwedig gyda phrofiadau ysbrydol, mae'n anodd cael geiriau i fynegi ein teimladau. Dyna pam mae fy niolch y tro hwn i emynwyr. A diau mai'r mwyaf ohonynt oll yw William Williams, Pantycelyn. Eleni, rydym yn dathlu tri chan mlwyddiant geni'r gŵr arbennig hwn.

Fo ydi awdur fy hoff emyn, yn digwydd bod – 'Mi dafla maich oddi ar fy ngwar' – emyn eithriadol o bwerus.

Rydw i wedi teimlo yn ofnadwy o euog weithiau, ond ddim yn gallu mynegi pwysau'r euogrwydd. Mae Pantycelyn yn ei fynegi yn wych,

'euogrwydd fel mynyddoedd byd'.

Be gewch chi'n drymach na hynny?

Mae *canu'r* geiriau hyn yn rhoi dimensiwn arall o ystyr iddynt, mae eu canu *meun torf* yn eu gwneud yn fwy grymus byth. Sut mae rhywun yn cyfleu yr hyn mae Crist wedi ei wneud drosom? Mae'r Beibl yn gwneud hynny mewn sawl llyfr, llythyr ac epistol. Mae'r Credo yn ei wneud. Ond mae Pantycelyn yn ei roi ar fydr, yn gryno, ac yn nerthol iawn

Atebion y Cwis (tudalen 16)

1-A; 2-C; 3-A; 4-C; 5-B; 6-A

# Y GRAWYS A'R PASG

gan y Diacon Stephen Roe

A ninnau'n nesáu at y Pasg, bûm yn meddwl am ystyr a tharddiad rhai o'r geiriau sy'n gysylltiedig â'r tymor hwn o'r flwyddyn. I ddechrau, dyna Ddydd Mawrth Ynyd – y gair 'ynyd' yn dod o'r Lladin 'initio' (cychwyn) gan fod y Grawys ar fin dechrau. Yna Dydd Mercher y Llundw, oherwydd yr arferiad, wrth gwrs, o roi lludw ar y talcen ar siâp croes, ar y diwrnod hwn pan fydd y Grawys yn dechrau.

Yn Gymraeg, fel yn Ffrangeg (Carême) a nifer o ieithoedd eraill, mae'r gair *Grawys* neu *Garawys* yn dod o'r Lladin 'quaragesima' sy'n golygu 'y deugeinfed dydd' (cyn y Pasg). Ond mae hyn yn codi cwestiwn. Rydyn ni i gyd yn gwybod bod tymor y Grawys yn para am 40 dydd am fod Iesu wedi treulio 40 dydd yn yr anialwch yn cael ei demtio gan y diafol cyn cychwyn ar ei weinidogaeth gyhoeddus. Gan fod Dydd Mercher y Llundw eleni ar 1 Mawrth a Dydd Sadwrn Sanctaidd ar 15 Ebrill, mae chwe wythnos a hanner rhwng y ddau – 46 dydd! Mae dau ateb posib i'r cwestiwn: yn gyntaf, dydy'r Suliau ddim yn rhan o'r Grawys, achos mai dydd yr Atgyfodiad ydy'r Sul, ac felly, mae pob dydd Sul yn cyfrif fel 'Pasg bach' a heb fod yn ddiwrnod ymprydio; neu yn ail, mae'r Grawys yn dod i ben ar Sul y Blodau, er mwyn rhoi amser i ymbaratoi at y Pasg trwy'r Wythnos Fawr. Mi gewch chi ddewis!

Mewn ieithoedd eraill (e.e. Almaeneg 'Fastenzeit') mae enw tymor y Grawys yn cyfeirio at yr arferiad o ymprydio. Yn Saesneg, mae 'Lent' yn dod o'r hen air 'lencte' – dyna lle ceir hefyd y gair 'lengthen' – gan fod y dyddiau yn ymestyn yr adeg hon o'r flwyddyn.

Ar 26 Mawrth eleni, a hithau'n bedwerydd Sul y Grawys, fe gawn Sul y Mamau, term sydd mewn gwirionedd yn

cyfeirio at famau neu famolaeth yn gyffredinol, mewn cyferbyniad â 'Mother's Day' a ddefnyddir fwyfwy yn Saesneg heddiw gan ganolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd traddodiad hefyd o fynd i'r 'fam-eglwys' yng nghanol y Grawys, sef eglwys fwyaf yr ardal, neu'r Eglwys Gadeiriol.

Hawdd deall tarddiad enw Sul y Blodau wrth inni gofio ymateb y dyrfa pan orymdeithiodd Iesu i mewn i Jerwsalem ar ddechrau wythnos olaf ei fywyd daearol. Beth wedyn am Ddydd Iau Cablyd? Daw'r gair 'cablyd' o'r Lladin 'capillatio', sy'n golygu 'eillio pen' neu 'torri gwallt'. Byddai'n arferiad i fyneich eillio eu pennau ar y diwrnod hwn, yn ogystal â golchi traed i gofio gweithred yr Arglwydd Iesu. O'r Lladin hefyd sef

'mandatum' (gorchymyn) y ceir 'Maundy Thursday'.

'Gwnewch hyn er cof amdanaf' yw gorchymyn Iesu ei hun i ni ac, yn ogystal: 'Yr wyf yn rhoi i chi orchymyn newydd: carwch eich gilydd.'

Ar y Groglith fe ddarllenwn am Iesu yn hongian ar y Groes. Mae 'Good Friday' yn dod o hen ystyr y gair, sef 'sanctaidd' yn hytrach na 'da'. Enw'r dydd yn Almaeneg ydy

'Karfreitag', sy'n golygu 'galaru' (cymh. y dywediad Saesneg 'burdened with care').

Daw'r gair 'Pasg' wedyn o'r Hebraeg 'Pesach', enw'r wyl a ddethlir gan yr Iddewon i gofio eu dihangfa o gaethiwed yng Ngwlad yr Aifft. Roedd y Swper Olaf, wrth gwrs, yn bryd o fwyd i ddathlu 'Pesach'. Mae'n anodd gwybod yn bendant o ble mae 'Easter' (ac 'Ostern' yn Almaeneg) yn dod, ond yn ôl pob tebyg fe ddaw o enw'r dduwies Eostre a addolwyd gan bobl Gogledd Ewrop cyn yr oes Gristnogol, ac a roddodd ei henw hefyd i fis yn y gwanwyn, tua'r un amser o'r flwyddyn â mis Ebrill.

*Bendithion y Pasg i chi i gyd.*

'Gwyn eu byd y rhai pur eu calon oherwydd cânt hwy weld Duw,' meddai Iesu, ac mae ei air ef yn gwarantu'r addewid. Mae'r 'gweld' yn cynnwys y syniad o sefyll gerbron, o adnabyddiaeth a chymdeithas, o amgyffred gyda'r holl saint ... a gwybod cariad Duw, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth. Dyma goron pob gobeithion. Nid rhyfedd i Iesu ddweud 'Gwyn eu byd'... Crea galon lân ynof, O Dduw, ac na chymer dy ysbryd sanctaidd oddi arnaf.

Y Parchg. Hugh Rowlands (1917-2008) yn y Gwyllydydd, Ebrill 1990

A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

## Horeb, Llanrwst

### DIOLCH

Erbyn hyn rydym wedi ymgartrefu'n dda iawn yn adeilad Capel Penuel, Llanrwst. Mae'r adeilad yn glyd iawn a mawr yw ein diolch i aelodau Penuel am ganiatáu inni ei ddefnyddio. Rydym yn ffodus iawn bod y Parchedig Ifor Jones yn gofalu amdanom a mawr yw ei ofal a'i gonsŷrn.

### GWELLHAD BUAN

Cafodd Mrs Margaret Hughes godwm yn ei chartref cyn y Nadolig ac wedi sbel yn yr ysbyty mae hi bellach yn cael gofal yng Nghartref yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur am ychydig wythnosau. Anfonwn ein cofion ati. Cafodd Mrs Marcia Jones lawdriniaeth i gael clun newydd yn ddiweddar a braf yw cael dweud ei bod yn gwella yn dda iawn dan ofal Peter a'r teulu. Dymuniadau gorau hefyd i sawl aelod arall sydd yn fregus eu hiechyd.

### PROFEDIGAETH

Cafodd Gareth ac Eira Jones brofedigaeth ym marwolaeth chwaer Eira, sef Mrs Annie Evans, Maes yr Hedydd, Y Bala yn ddiweddar.

Trist iawn yw clywed am farwolaeth Mr Snowden Foulkes yng Nghartref y Borth, Llanrwst. Roedd yn flaenor ac yn aelod ffyddlon ym Mhenuel, Capel y Bedyddwyr, a bu hefyd yn ysgrifennydd Eglwys Rhyddion Llanrwst am flynyddoedd. Gŵr tawel, bonheddig iawn oedd Mr Foulkes. Cydymdeimlwn yn fawr a'i wedd Mrs Margaret Foulkes a Haydn y mab, fu'n ofalus iawn o'i rieni dros y blynyddoedd.

*Gohebydd - Eira Jones*

## Pendref, Dinbych

### ADDOLI YM MHENDREF A PHENIEL

Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Ionawr a Chwefror, dan ofal ein gweinidog y Parchedig Tudur Rowlands a'r Parchedigion Tom Williams, Glyn Thomas a Jennie Hurd. Ar Sul olaf Ionawr fe adnewyddwyd y cyfamod, traddodiad y buom yn ei gynnal ers blynyddoedd lawer. Diolch i bawb a gymerodd ran hefyd yn ein cyfarfodydd gweddi yn y ddwy eglwys.

### YR ATGYWEIRIO

Ar 30 Ionawr cynhaliwyd cyfarfod pellach i drafod y gwaith atgyweirio sydd

ei angen, gyda'r Parchedig Ddr Jennie Hurd, Joanne Balmforth, Swyddog Cadwraeth yr Eglwys Fethodistaidd, a Phill Ebbrell, Pensaer Cadwraeth. Trafodwyd adroddiad annibynnol a baratwyd gan Phill Ebbrell a bu'n gyfarfod cadarnhaol.

### YN MEDDWL AMDANOCH

Dymunwn wellhad buan i ddau o'n haelodau, Hywel Evans a Diana Roberts.

Cydymdeimlwn â Gwyn Williams a'r teulu ar golli chwaer.

Dymunwn ben-blwydd hapus i nifer o'n haelodau a fu'n dathlu penblwyddi yn ddiweddar.

### FFAIR WANWYN

**Byddwn yn cynnal ein Ffair Wanwyn yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych ddydd Sadwrn Mai 6ed 2017 rhwng 10 a 11.30 y bore**

*Gohebydd - Mary Jones*

## Bethel, Aberdyfi

### PRIODAS



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ceri H. Jones ac Alice Elizabeth Hewitt ar achlysur eu priodas, yng nghapel Bethel, Aberdyfi ar 25 Chwefror. Gweinyddwyd gan y Parchedig Patricia Grudgings ynghyd â Mr Pete Cook.

*Gohebydd - Gerald Grudgings*

## Peniel, Llanelwy

### COFFÂD MRS NORA COWARD

Bu farw Nora Coward yn 104 mlwydd oed. Yn ei blynyddoedd olaf, ar ôl dod i Llanelwy i fod yn agos at ei theulu, bu'n aelod yng nghapel Peniel ac yn ffrind annwyl i ni i gyd. Dyma ran o deyrnged ei mab Mr Geoff Coward i'w fam, yn y gwasanaeth cynhebrwng a arweiniwyd gan y Parchedig Tudur Rowlands:-

Ganwyd Nora ar Ragfyr 7fed 1912, yn Goole, Dwyrain y Riding, Swydd Efrog. Fel llawer o famau Swydd Efrog roedd yn gymeriad penderfynol, yn garedig ei natur, yn ysmala a chyda synnwyr digrifwch, bob amser yn weddus a ddim ofn gwaith. Yr ieuengaf o bedwar o blant,



*Mrs Nora Coward*

prin iawn oedd ei chof o'i thad, a roesodd y Rhyfel yn Ffrainc a Gwlad Belg ond yna syrthio'n aberth i ffliw mawr 1919. Nid hawdd i'w mam weddw oedd magu pedwar o blant yn y dau ddegau cynnar heb fanteision gwlad-wriaeth les. Erbyn hynny roedd y teulu wedi symud i Knottingley, gan fod taid, tad ac yna priod Nora yn gychwyr ar y gamlas, a dyna lle yr ymgartrefodd am y rhan fwyaf o'i hoes. Byddai bywyd yn troi o amgylch gweithgareddau llewyrchus y capel Methodistaidd yn Ropewalk: yr Ysgol Sul, Cylch yr Ifanc, côr y capel. Datblygodd cariad Nora at gerddoriaeth a daeth yn unawdydd soprano. Roedd hefyd yn mwynhau tennis, a hyd yn oed yn ei saithdegau a'i hwythdegau, ni wrthwynebai gnocio o gwmpas gyda'i hŵyr! Wedi ymbriodi â Stanley Coward yn 1939, creodd gartref cariadlawn i'w theulu; byddai bob amser yn ddarvoudus ond hefyd yn hael. Symudodd Nora i Llanelwy pan oedd yn naw deg tair oed a threulio blynyddoedd hapus yno yn yr Hen Balas: mawr yw ein dyled i bawb a gymerodd ofal ohoni. Llwenydd i ni oedd fod Mam yn abl i ddathlu a mwynhau ei chanfed pen-blwydd gyda theulu a chyfeillion.

### ADDOLI

Hoffem ddiolch i'r gweinidogion a'r arweinyddion sydd yn ein hysbrydoli o Sul i Sul. Gwerthfawrogwn hefyd y gefnogaeth a gawn gan aelodau Pendref, Dinbych. Cawsom gyfarfod cyd-enwadol merched Llanelwy ar ddechrau'r flwyddyn ac fe draddodwyd anerchiad amserol a diddorol am bwysigrwydd tymor yr Ystywyll, gan y Parchedig Ganon Rex Matthias. Roedd yn dda cael cyfle i gymdeithasu gyda phaned wedyn.

### DYMUNIADAU GORAU

Dymunwn yn dda i Mrs Mair Rees ar ôl damwain; gobeithio y cawn ei chroesawu'n ôl cyn bo hir.

### DIOLCH

Hoffai teulu'r diweddar Euryn Roberts ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn eu profedigaeth. Diolch yn fawr hefyd i'r Parchedig Ddr D. Ben Rees am ei deyrnged, yn atgoffa pawb am gyfraniad gwerthfawr Euryn i fywyd Cymraeg

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

dinas Lerpwl, ac yn arbennig i'r ddau gapel y bu'n aelod ohonynt. Ef a ofalodd fod yr Eglwys Fethodistaidd yn ymuno â chapel Bethel i greu capel cryfach yn y ddinas.

*Gohebyddion – Heulwen M. Ellis  
a Morfudd E. Roberts*

## Bethel, Rhiwbeina

### GWASANAETHAU

Yn ystod mis Chwefror cawsom wasanaethau ysbrydoledig dan arweiniad Marc Jon Williams, ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan a'r Athro Gwynfor Jones.

### DYMUNIADAU GORAU

Llongyfarchiadau i Mair Dyfri a Howel James sydd wedi dathlu penblwyddi arbennig yn ystod mis Chwefror a phob dymuniad da hefyd i Iola James ac i'n gweinidog ar ddathlu penblwyddi ddechrau'r flwyddyn.

### GWELLHAD

Dymunwn yn dda i Ken sydd wedi dod adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty. Rydym hefyd yn falch iawn fod Bob Davies, un o'n haelodau hynaf, yn well ar ôl cyfnod o salwch yn yr ysbyty.

### LLONGYFARCHIADAU

Braf yw cael llongyfarch Angharad, merch Carol a Tony Davies, ar ei dyweddiad â Gavin Trailer o Aberaman. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt.

### OPERA

Ar nos Sadwrn Chwefror 25 daeth Cwmni Opera'r Ddraig i'n diddanu gydag amrywiaeth o unawdau a deuawdau o fyd opera a chafwyd noson wefreiddiol. Mae'r cwmni'n cynnwys myfyrwyr a chyn-fyfrwyr Coleg Cerdd a Drama Cymru ac ar hyn o bryd maent yn ymarfer ar gyfer perfformiad o'r opera *Die Fledermaus*.

### GŴYL DEWI

Ar Chwefror 28 daeth aelodau'r capel at ei gilydd i ddathlu Gŵyl Dewi yn y *Plough* yn yr Eglwys Newydd.

*Gohebydd – Gwilym E Roberts*

## Ardal Bathafarn

### Y GYMDEITHAS

Cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Cyril Jones am Ryfel y Degwm; roedd gwybodaeth eang ganddo am y gwrthryfel yn Llangwm a Mochdre. Un o ardal Bae

Colwyn yw Cyril a bu'n ddarlithydd yng Nghaerfyrddin cyn symud i Ruthun i fod yn nes at ei ferch a'i fab yng nghyfraith sef Nia a Gwyn Williams a'r plant Richard ac Angharad, Plas Bennett, Llandyrnog. Bu Bryn Davies o Lanidloes, cyn Brifathro, yn sgwrsio hefyd am helpu ysgol yn Lesotho. Nosweithiau addysgiadol iawn.

### CYMORTH I FFOADURIAID

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Bore Coffi a gynhaliwyd yn festri Bathafarn er mwyn helpu ffoaduriaid. Yn ogystal â chodi swm da o arian, bu'n gyfle i gymdeithasu â'n gilydd a braf oedd gweld Aled, sy'n flwydd oed, wedi dod gyda'i nain Rhian Hughes. Mab Elgan a Helen yw Aled. Diolch i'r aelodau fu'n brysur yn gwerthu tocynnau ac i bawb am helpu ar y bore.

### GWASANAETHAU

Dathlwyd y Cymun gan y Parchedig Martin Evans-Jones ym Mathafarn a chan y Parchedig Tudur Rowlands yng Nglyndyfrdwy. Arweiniwyd gwasanaethau hefyd gan y Diacon Stephen Roe ac Aled Lewis Evans. Diolch i Rhian am gyfeilio, i Dafydd am gyhoeddi ac i Elizabeth a Meta am ofalu am y capel a'r festri yn ystod Ionawr a Chwefror. Mae gennym aelodau a ffrindiau gweithgar iawn yng nghapel Ardall Bathafarn a gwerthfawrogwn eu brwdfrydedd.

### DYMUNIADAU GORAU

Anfonwn ein cofion at Arfon Williams, Ysgrifennydd y Synod, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Ein cofion anwylaf at bawb sydd mewn gwaeledd. Edrychwn ymlaen at dymor y Gwanwyn a'i gynhesrwydd i lonni'r galon unwaith eto.

### SUL Y BLODAU

**Bydd gwasanaeth arbennig am 2 o'r gloch ar Ebrill 9fed, ym Mathafarn, Rhuthun. Pregethir gan y Parchedig Marc Morgan.**

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

## Eglwys Unedig Colwyn

### DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD

Yn Horeb y cynhaliwyd ein gwasanaeth eleni a'r tro hwn roedd wedi ei baratoi gan Chwiorydd Cristnogol Ynysoedd y Philipin, gyda'r thema 'Ydw i'n annheg â thi?' Cymerwyd rhan gan chwiorydd Capel y Rhos, Ebeneser a Hebron ac yn ein cynrychioli ni fel Eglwys Unedig Colwyn roedd Gwenllian, Nan a Rhian gyda Rhiannon yn arweinydd. Diolch o galon i Marian am gyfeilio ac i bawb a gymerodd ran.

### DYMUNIADAU DA

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Arfon yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at yr amser y bydd yn teimlo'n ddigon da i ddod yn ôl i'r oedfaon. Anfonwn ein

cofion annwyl hefyd at Mrs Blodwen Jones (Bay View gynt) sydd wedi bod yn yr ysbyty, ac at bob un o'n haelodau sydd yn wael ar hyn o bryd.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## Ebeneser, Trefor, Môn

### ATGYWEIRIO

Yn anffodus daeth crac go fawr i nenfwd y capel yn ddiweddar a bu raid cael ei drwsio yn reit sydyn rhag iddo fynd yn waeth. Bu'r adeiladwyr i mewn ac mae'n edrych fel newydd. Diolch i bawb a fu'n gyfrifol mewn unrhyw ffordd yn trefnu, yn gwneud yr atgyweirio ac yn clirio cyn ac ar ôl y gwaith.

### GWELLHAD BUAN

Bu Mrs Margaret Owen yn yr ysbyty yn cael triniaeth i'w llygad. Gobeithio y bydd yn gwella'n fuan ac anfonwn ein cofion ati.

*Gohebydd – Carys Thomas*

## Ebeneser, Eglwysbach

### ER COF ANNWYL

Ar 16 Chwefror bu farw Mrs Elvira Crapper, Min Afon (gynt o Tan yr Ywen) yn 89 oed, priod ffyddlon y diweddar Trevor, mam annwyl Deryl a Dewi, Sylvia ac Arwel a'r diweddar Les, nain a hen nain gariadus, chwaer hoffus Raymond a'r diweddar Barchedig Brian Griffith, Lyn, Gwilym a Richie. Cynhaliwyd ei hangladd ar Chwefror 23 yng Nghapel Ebeneser dan ofal ein gweinidog y Parchedig R. Ifor Jones gyda Mrs Diana Hughes wrth yr organ. Darllenwyd y deyrnged gan y Cynghorydd Austin Roberts. Bu Mrs Crapper yn aelod ffyddlon yn Ebeneser am flynyddoedd lawer. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

*Gohebydd – Charles Crapper*

## Ebeneser, Treuddyn

### DIOLCH, MALDWYN!

Hoffai'r aelodau ddatgan eu gwerthfawrogiad i Mr Maldwyn Roberts, sy'n sefyll i lawr o fod yn ohebydd i'r *Gwyllydd*, am ei holl waith dros nifer fawr o flynyddoedd.

### CYDYMDEIMLO

Ar Ionawr 23ain bu farw Mrs Enid May Stephens, gynt o Faes Llewelyn. Roedd Mrs Stephens yn fam i Peter ac Elizabeth a chydymdeimlwn yn fawr â nhw a gweddill ei theulu.

### ADDOLI

Yn arwain ein gwasanaethau eleni bu'r Parchedigion Eirlys Gruffydd Evans, Marc Morgan a Jennie Hurd a buom yn cydaddoli hefyd â Chapel y Rhos ar ddau

*parhad ar dudalen 10*



# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

achlysur. Anfonwn ein cofion cynhesaf at ein haelodau sydd mewn cartrefi preswyl ac yn yr ysbytai ar hyn o bryd. Mae chwithdod ar eich ôl yn ein gwasanaethau.

## Y GYMDEITHAS

Bu i'n Cymdeithas aildechrau ar Fawrth 1af, gyda noson dan ofal y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans a fu'n sôn am Seintiau Cymru. Kevin Matthias fydd y gŵr gwadd ar Ebrill 5ed a Dewi Hughes ar Fai 3ydd.

**Hefyd, cynhelir arwerthiant ar ddydd Sadwrn, Mai 6ed.** Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod ar y nos Fercher gyntaf pob mis tan fis Awst ac mae rhaglen amrywiol a diddorol wedi'i threfnu. Croeso cynnes.

## OEDFA'R GROGLITH

**Cynhelir Oedfa Gymun Bore Gwener y Groglith am 10.30yb dan ofal ein gweinidog, y Parchedig, Eirlys Gruffydd Evans. Croeso cynnes i bawb.**

*Gohebydd – Glenys Davies*

## Triniti, Pontarddulais

### TOSTRWYDD

Bu Marcus, mab Myra Jones, yn bur sâl ac yn parhau o dan ofal meddygol ar ôl llawdriniaeth yn yr ysbyty. Cyn iddo ymfudo i Ogledd America rai blynyddoedd yn ôl ac ymgartrefu yn Los Angeles, roedd Marcus yn un o blant yr Ysgol Sul yma ac yn ffrind hoff i'w gyfoedion yn y Triniti. Rydym fel Eglwys yn danfon ein dymuniadau gorau ato gan obeithio y caiff wellhad llwyr yn fuan iawn.

*Gohebydd – J R Jones*

## St Paul, Aberystwyth

### DATHLIAD

Daeth y cynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg at ei gilydd dros benwythnos 25-26 Chwefror i ddathlu 25 o flynyddoedd er inni agor Canolfan Sant Paul. Yn yr wythnosau cyn y dyddiad anfonwyd gwahoddiadau at y rhai oedd wedi addoli yn yr adeilad dros y chwarter canrif diwethaf. Daeth nifer sylweddol o hen gyfeillion yn ôl i Aberystwyth dros y penwythnos, gan gynnwys cyn-fyfyrrwyr oedd wedi bod yn aelodau o'r Gymdeithas Fethodistaidd. Roedd yr

adeilad ar agor trwy gydol dydd Sadwrn gydag aelodau o'r ddwy gynulleidfa yn bresennol i groesawu'r dychweledigion. Ar nos Sadwrn cawsom gyfle i fwynhau twmpath a chymdeithasu â'n gilydd.

Ar y bore Sul cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog dan arweiniad y Parchedig Peter Barber a'r Diacon Gwenllian Knighton. Darllenodd Miss Menna Evans o'r Ysgrythur yn y Gymraeg. Wedi'r gwasanaeth aeth tua 60 ohonom i Westy'r Marine i ginio, tra oedd tua 30 yn aros yn y Ganolfan am ginio picnic.

### CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Buddug Jenkins sydd wedi colli ei chwaer a hefyd Ms Beti Wyn Holmes, ein pregethwr cynorthwyol, sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar.

*Gohebydd – Lionel Madden*

## Shiloh, Tregarth

### GWAELEDD

Dymunwn wellhad buan i un o'n haelodau sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty, sef David Ellis Jones, Glan Gors. Cofion cynnes a brysiwch wella, David. Anfonwn ein cofion hefyd at eraill sydd wedi methu mynychu'r oedfaon yn ystod y gaeaf gan obeithio y byddwch yn cryfhau gyda'r gwanwyn ar y ffordd.

### PROFEDIGAETH

Daeth ton o dristwch dros y fro pan ddaeth y newyddion am farwolaeth sydyn un o flaenoriaid hynaf Shiloh sef John O. Roberts ar Chwefror 25 ac yntau'n 91 mlwydd oed.

Bu Jack yn aelod yn Shiloh ar hyd ei oes ac am flynyddoedd bu'n flaenor ac yn bregethwr cynorthwyol cymeradwy iawn yn yr ardal ac mewn ardaloedd cyfagos.

Cydymdeimlwn â'i ferch Wendy a'i fab Michael, ei chwaer Mrs Edith Hughes, a'r holl deulu yn eu galar. Profodd y teulu brofedigaeth arall yn ystod mis Chwefror pan fu farw nith i Edith a Jack, sef Marilyn Parry o Rachub. Roedd Marilyn yn ferch i'w diweddar chwaer, Mair, a'i phriod Gwilym Parry. Cydymdeimlwn â chi fel teulu ar adeg mor drist yn eich hanes.

### DRWS AGORED

Cofiwch fod y drws yn agored yn Shiloh bob bore Gwener o 10 o'r gloch hyd 12 o'r gloch. Trowch i mewn am sgwrs a phaned gyda chyfeillion. CROESO.

### CROESO ADRE

Roedd yn hyfryd cael cwmni ein gweinidog y Parchedig Gwynfor Williams yn yr oedfa nos Sul, Mawrth 5, wedi iddo ef a'i briod Mrs Katie Williams

ddychweled o Ddenmarc lle buont yn mhriodas eu hŵyr Osian. Pob dymuniad da i'r pâr ifanc i'r dyfodol.

### NOS IAU CABLYD

**Bydd gwasanaeth y Cymun Bendigaid am 6 yr hwyr. Croeso i bawb.**

*Gohebydd – Gwenda Davies*

## Tabernacl, Llanfyllin

### ER COF ANNWYL

Collodd Capel y Tabernacl ddau aelod ffyddlon ddechrau'r flwyddyn. Bu farw Iorwerth Jones, yr Alders, yn dawel yn ei gartref ar ôl gwaeledd hir. Mae ein cydymdeimlad yn fawr â Glenys ac Edfryn Hamer, ei chwaer a'i frawd yng nghyfraith, a'r teulu oll. Cydymdeimlwn yn ogystal â theulu'r ddiweddar Mrs Betty Ellis, gynt o Fferm y Pwynt, un a fu'n aelod ffyddlon am flynyddoedd yn y Tabernacl. Bu ar staff yr Ysgol Uwchradd fel cynorthwywraig mewn nifer o adrannau. Llywyddwyd yr angladd gan y gweinidog y Parchedig Gwyndaf Richards a rhoddodd Mr Tom Ellis deyrnged glodwiw i Betty. Cafwyd unawdau gan Delyth Blainey Taylor gyda Mrs Eldrydd Jones wrth yr organ.

### LLONGYFARCHIADAU

Pob dymuniad da i Rhys a Kelly, Bodydon, ar enedigaeth eu hail blentyn, Huw Emyr, brawd bach i Celyn – a llongyfarchiadau i Taid a Nain, Elwyn a Llywela. Yr un mor gynnes yw ein llongyfarchion i Rhys ac Emma Francis, Penrhos, ar enedigaeth merch fach, Madlen Esther, chwaer fach i Maccsen. Llongyfarchiadau yn ogystal i Taid a Nain, Huw ac Alwena, a phob dymuniad da i'r teulu oll i'r dyfodol.

### ANRHYDEDD

Llongyfarchiadau i Tom Ellis, Tawelfa, ar dderbyn Anrhydedd Uwch Siryf Sir Powys yn Neuadd Gregynog at Fawrth 1af, am ei waith yn y gymuned. Mae Tom wedi bod yn brysor iawn yn ardal Llanfyllin a thu hwnt gyda nifer o gymdeithasau, gan ysgwyddo cyfrifoldebau yn ysgolion a chapeli'r fro a gweithio gyda'r Gideoniaid i ddosbarthu Testamentau Newydd i blant Blwyddyn 7 mewn nifer o Ysgolion Uwchradd. Mae John ei frawd wedi cael yr un anrhydedd am waith tebyg yn ardal Llanfair Caereinion.

Dau frawd â'r un brwdfrydedd

–daeth y dydd

daeth dyddiad anrhydedd;

dysgu a rhannu rhinwedd,

â'r un awch dau o'r un wedd.

*Cymerau*

### GŴYL DDEWI

Ar Sul olaf Chwefror cynhaliwyd yr oedfa flynyddol dan nawdd y Gymdeithas Gymraeg, eleni yng Nghapel y Tabernacl. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd y Parchedig

Gwyndaf Richards gydag Eldrydd Jones wrth yr organ. Cyflwynwyd y casgliad i Ysbyty'r Plant yn Birmingham,

### **GWELLHAD BUAN**

Drwg gennym ddeall bod Owen Edwards, Hafryn, yn yr ysbyty ar ôl codwm yn ei gartref. Anfonwn ein cofion ato a phob dymuniad da am wellhad buan.

### **DRWS AGORED**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2017 yn Ffestri'r Tabernacl ar nos Fercher Mawrth 1af dan lywyddiaeth Rhoswen Charles. Y gŵr gwadd oedd y Parchedig Andrew Evans Llanrhaeadr Y M, un sydd wedi ymddeol yn yr ardal ar ôl gwasanaethu dros y ffin. Cafwyd awr ddiddorol a doniol yn ei gwmni. Bu'n adrodd straeon digri a barddoniaeth ddiddorol ac fe ganodd ambell gân gyda'r gitâr a'r aelodau yn ymuno i ganu.

*Gohebydd – Robin Hughes*

## **Ebeneser, Dolgellau**

### **CADW MEWN CYSYLLTIAD**

Braf oedd clywed oddi wrth Sylvia Jones, Kay Duggan, Janet Handley a Lorna Gear, cyn- aelodau sydd wedi symud o'r ardal ond sy'n cadw mewn cysylltiad â ni yn Ebeneser.

### **CYFARFOD BLYNYDDOL**

Cafwyd Cyfarfod Blynyddol llwyddianus ar yr 8fed o Ionawr, gyda'r Diacon Stephen Roe yn cadeirio.

### **CWRS Y GRAWYS**

Yn ystod tymor y Grawys, cynhelir Cwrs Astudiaeth Feiblaidd yn Ebeneser

*Gohebydd – Gwyneth Meredith*

## **Saron, Bethel, Arfon**

### **BEDYDD**

Prynhawn Sul, y pedwerydd ar bymtheg o Chwefror eleni bedyddiwyd Tiegan

Rose, merch fach Stephen a Gwenan Doy, a chwaer bach newydd Huw, Cadi a Charles. Gwasanaethwyd gan ein gweinidog, y Parchedig Gwynfor Williams. Roedd cynulleidfa niferus o deulu a ffrindiau wedi dod ynghyd i'r gwasanaeth a chafwyd oedfa hyfryd iawn yn eu cwmni. Pob bendith a'n dymuniadau da ni fel Eglwys i'r teulu bach ffyddlon yma.

*Gohebydd – Robin Jones*

## **Preswylfa, Cyffordd Llandudno**

### **CYDYMDEIMLO**

Bu farw modryb i Mrs Eirian Jones yn Andover yn ddiweddar, sef Anti Olive. Diolch am y cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atom.

*Gohebydd – Eirian Jones*

## **Bethel, Prestatyn**

### **GWASANAETH DYDD GŴYL DEWI**

Ein thema eleni oedd "Gwnewch y Pethau Bychain" Daeth y plant yn eu gwisgoedd Cymreig i gymryd rhan. Yna pan ddaethant yn ôl i'r oedfa ar ôl bod yn yr Ysgol Sul, cyhoeddwyd 'Dyma ein pethau bach ninnau - rydym yn hynod o lweus' a chafwyd clap mawr iddynt gan y gynulleidfa. Hyfryd!

### **Y GYMDEITHAS LENYDDOL**

Mrs Siân Rees oedd ein siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Chwefror. Cawsom anerchiad diddorol am ei llyfr 'Yr Hafan Deg' sy'n sôn am hanes y Rhyl yn ystod y ganrif ddiwethaf.

### **DYMUNIADAU GORAU**

Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein holl aelodau sydd yn methu bod gyda ni ar y Sul oherwydd gwaeledd. Gweddiwn yn arbennig dros Lili, aelod o'r Ysgol Sul, sydd yn Ysbyty Alder Hey yn derbyn

triniaeth. Hyfryd oedd gweld Mr Elwyn Roberts yn ôl yn yr oedfa yn dilyn ei salwch.

### **GWASANAETH BEDYDD**

Bedyddiwyd Arthur Albert, mab bach Siôn Huw a Rachel Davies a brawd bach Joseff gan y Parchedig Thomas Evans Williams fore Sul, Chwefror 19eg. Hyfryd oedd gweld y capel yn llawn gyda



ffrindiau a theulu Arthur yn ymuno â ni yn y gwasanaeth. Gwahoddodd Siôn a Rachel bawb i'r festri yn dilyn y gwasanaeth i fwynhau coffi a chacennau. Rachel Purser, ei fodryb ac un o'n haelodau ifanc, yw un o'r mamau bedydd.

### **DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD**

Mae'r ddau lun isod yn dangos y bwrdd yn barod ar gyfer y gwasanaeth a'r merched yn mwynhau cymdeithasu wedyn.

### **GWASANAETH SUL Y PASG**

Mr Dafydd Iwan fydd yn arwain ein haddoliad ar fore Sul y Pasg ac edrychwn ymlaen at hyn. Byddwn yn addurno'r groes â blodau yn ystod y gwasanaeth fel arwydd o'r bywyd newydd.

*Gohebydd – Gwenda Humphries*

## **Bethel, Prestatyn**



# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

## Tabernacl, Penrhyndeudraeth

### ER COF ANNWYL AM MARY EVANS

Bu farw Mary Evans, aelod ffyddlon yng Nghapel y Tabernacl, Penrhyndeudraeth. Yn enedigol o Benrhyndeudraeth, fe ymgartrefodd yma drwy ei hoes ac eithrio cyfnod yn Wrecsam yn hyfforddi i fod yn athrawes. Wedi hynny dychwelodd i ddysgu yn ysgol gynradd Penrhyndeudraeth. Byddai Mary yn ei sedd yn y capel bob Sul bron yn ddi-ffael; roedd yn weithgar iawn yn yr achos a hefyd yn byw ei ffydd allan yn y gymdeithas. Bu'n aelod brwd o'r Groes Goch, gan ddysgu Cymorth Cyntaf i eraill, ac roedd yn wyneb cyfarwydd mewn digwyddiadau o bob math lle

byddai ar gael i gynnig Cymorth Cyntaf. Yn ei hymddeoliad gwirfoddolodd i roi cefnogaeth a chymorth i ddiodefwyr trossedd yn y llysoedd ym Mhwlheli, Dolgellau a Chaernarfon. Byddai Mary yn gwneud pethau mewn ffordd dawel, nid er mwyn cael unrhyw glod – ond petai ar rywun angen unrhyw help byddai hi'n siŵr o fod ar gael. Cydymdeimlwn â'i chwaer Pat a'r teulu oll. Bydd colled fawr ar ôl Mary.

*Gohebydd – Y Diacon Stephen Roe*

## Ebeneser, Caernarfon

### GWELLHAD BUAN

Oherwydd damwain, bu Mair Roberts, Parc Muriau yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth i'w choes. Bu Lil Watkins hefyd yn yr ysbyty yn derbyn archwiliad. Dymuniadau gorau i chi eich dwy ac i rai o'r aelodau eraill na allant gymryd rhan yng ngweithgareddau'r eglwys oherwydd gwaled. Cafodd Kate Williams, priod ein gweinidog, ddamwain yn ei chartref ond mae bellach wedi cryfhau'n ddigon da i allu mynd i briodas ei hŵyr, Osian, yn Nenmarc.

### ER COF ANNWYL

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu'r diweddar Eirwyn Pritchard, blaenor

annwyl a charedig ac un a fu'n hoff iawn o weithio gyda'r plant. Chwith iawn ar ei ôl.

*Gohebydd – Branwen Edwards*

## Seion, Pwllheli

### CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn fel eglwys â Mrs Megan Roberts ym marwolaeth ei phriod, Wyn Roberts, ac â Mrs Wilma Miners, chwaer Wyn. Magwyd Wyn, Wilma a'u diweddar chwaer Vida yn Seion Pwllheli ac roedd y tri yn meddwl y byd o'r capel. Ymunodd Wyn â'r fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac yna ar ddiwedd y rhyfel aeth yn fyfyrwr i Goleg Caerleon i'w hyfforddi i fod yn athro. Bu'n gweithio mewn sawl ardal cyn ei benodi'n brifathro Ysgol Tany-Fron, Llansannan. Ar ôl ymddeol dychwelodd i Bwllheli lle bu'n weithgar iawn. Roedd yn hoff iawn o lenyddiaeth a hoffai farddoni gan gymryd rhan yn Nhalwrn y Beirdd gyda thîm Y Tir Mawr. Diolch i Mr Alwyn Pritchard am ganiatâd i gyhoeddi'r englyn hwn a gyfansoddodd er cof am Wyn:

Byd awen a llên oedd yn lli,  
yna o'n canol ei goll;  
ein cefn hen oedd a'n cof ni,  
a halen tref Pwllheli.

*Gohebydd: Elizabeth Owen*

# MOR DDA YW DUW

Pan fydd y Gynhadledd Fethodistaidd yn cyfarfod yn flynyddol, bydd llawer o drafodaethau ac fe wneir rhai penderfyniadau pellgyrhaeddol. Un o'r bobl sy'n helpu i roi'r penderfyniadau hynny ar waith yw Doug Swanney. Teitl ei swydd yw Ysgrifennydd Cyfundebol ac mae ef, ynghyd ag Ysgrifennydd y Gynhadledd ac arweinwyr eraill, yn gyfrifol am ystyried sut orau i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael er mwyn gwireddu gweledigaeth yr Eglwys Fethodistaidd. Mae Doug hefyd yn aml yn cynrychioli'r Eglwys ledled gwledydd Prydain a thramor. Daeth draw i ymweld â Synod Cymru ac annerch ein Pwyllgor Polisi yn ddiweddar. Dyma rai o argraffiadau Doug:

"A finnu'n teithio ar y trên o Gaer i Fae Colwyn, bûm yn edrych drwy'r ffenestr ar harddwch y môr ac arfordir Cymru a'r hyn a ddaeth i'm meddwl oedd 'Mor dda yw Duw!'. Rhan o fy swydd i fel Ysgrifennydd Cyfundebol yw ein helpu ni oll i fod yn unedig ac mewn cysylltiad â'n gilydd. Mae angen i ni wrando ar ein



gilydd ac un ffordd rwyf yn ceisio gwneud hynny yw trwy dderbyn gwahoddiadau caredig i ymuno â Chyfarfodydd Cylchdaith, Pwyllgorau Polisi Taleithiau, Synodau a myrdd o gyfarfodydd eraill ym mhob cwr o'r ynysoedd hyn.

Wedi derbyn gwahoddiad o'r fath yr oeddwn i ar y bore heulog o Chwefror pan deithiais ar y trên i gyfarfod rhai o gyfeillion Synod Cymru. A bu'n gyfle gwych i mi glywed am yr holl wahanol waith sy'n digwydd yng Nghymru a chw'rdd â rhai o'r bobl sydd wrthi mor frwdfrydig yn rhannu eu ffydd. Gan fy

mod wedi dechrau fy ngyrfa yn gweithio gyda gweinidogaeth i blant, hyfrydwch o'r mwyaf oedd clywed am yr ymdrechion presennol i gynnwys plant a phobl ifanc yng ngwaith yr Eglwys a rhannu'r Efengyl â hwy.

Cefais gyfle i siarad â'r cyfarfod hefyd a braint oedd cael sôn am bethau gwefreiddiol sy'n digwydd o amgylch y byd. Mae'n hawdd iawn anghofio ein bod yn rhan o gymdeithas fawr iawn (sydd ar gynydd!) o Fethodistiaid mewn llawer o wledydd. Yn ddiweddar bûm ar ymweliad â Hong Kong pan sefydlwyd gweinidog newydd yn yr Eglwys Fethodistaidd Ryngwladol yno a chefais fy ysbrydoli gan y profiad hwnnw. Mae'r gynulleidfa yno yn ymateb i'r angen a welant o'u hamgylch gan gyhoeddi'r Efengyl wrth wneud hynny. Efallai na fyddem ni yn ein Cylchdeithiau yma yn dilyn yr un trywydd yn union ond yr un yw'r cymhelliad a'r angerdd. Mae'r hyn sydd yn ein huno yn ein hatgyfnerthu hefyd.

Ymweliad byr a gefais â Chymru ond fe'm llanwyd â llawenydd wrth weld ynni ac ymroddiad y bobl a gyfarfyddais.

Boed bendith arnoch i gyd yn eich gweinidogaeth."

Dydi Duw ddim wedi fy ngalw  
i fod yn llwyddiannus,  
ond i fod yn ffyddlon.  
*Y Fam Teresa*

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r  
**Parchedig Ddr O.E. Evan**  
a'r teulu ym marwolaeth  
**Mrs Margaret Evans**

# CYFRANNU I FYWYD Y PENTREF

gan J.R. Jones

Mae Pontarddulais yn un o bentrefi mwyaf gorllewinol Sir Forgannwg, yn sefyll ar lan afon Lluchwr, rhyw chwech i saith milltir o'r fan lle mae'r afon yn ymollwng i'r môr, ond eto o fewn cyrraedd y llanw. Mae'n gorwedd mewn ardal amaethyddol eang, tiroedd glas-wyrdd i bob cyfeiriad. Eto, roedd unwaith yn ardal ddiwydiannol brysur a phwysig, yn gartref i nifer o weithfeydd tun (tri ohonynt o faint), i waith brics go fawr ac i bwll glo (ar ben uchaf dyffryn Dulais). Mae hefyd yn y pentref orsaf reilffordd sydd ar y lein sy'n cysylltu canolbarth dwyreiniol Cymru ac Abertawe a Llanelli.

Nid rhyfedd felly fod cynifer o addoldai yn rhan o fframwaith y pentref. Mae'r

gweithfeydd i gyd erbyn hyn wedi distewi a mynd yn fud ond mae'r capeli Cymraeg i gyd â'u drysau'n parhau yn agored. Mae Trinitî, yr Eglwys Fethodistaidd, wedi cyfrannu'n llawn i fywyd crefyddol a diwylliannol y pentref. Gan fod Mans y Trinitî yng nghanol y pentref mae'r gweinidog i'w weld yn rheolaidd ar y stryd ac yn sicr (fel yr heddwes gynt) yn gysur i lawer ohonom. Mwy na hyn, mae bellach yn un o dri yn unig o weinidogion ordeiniedig ac yn llanw llawer bwch yng ngweithgareddau'r pentref sydd heb fod yn uniongyrchol yn ei ofal.

Mae'n debyg fod y Trinitî wedi chwarae rhan lawnach ym maes chwaraeon yma ym Mhontarddulais na'r un o'r eglwysi eraill. Sefydlwyd y tîm criced yn y flwyddyn 1875, fel rhan o

gynghrair De Cymru a Sir Forgannwg, meithrinfa i dîm Sir Forgannwg. Bu'r Trinitî yn gefn i'r Clwb bron o'r cychwyn a ni hyd yn ddiweddar fyddai bob amser yn paratoi a gweini'r te hanner amser ar bryn-hawn Sadwrn. Yn Sedd Fawr y Trinitî ar y Sul, byddem yn gweld ambell un a serennodd ar faes criced Ffôs-yr-Efail y diwrnod cynt. Mae'r cysylltiad yn parhau: John Evans, gŵr Ysgrifennydd yr Eglwys, yw Cadeirydd y Clwb ers rhai blynyddoedd yn awr.

Chwaraeodd y Trinitî ran flaenllaw i gyfeiriad arall hefyd sef ym myd y ddrama. Bu gennym gwmni drama, cwmni Dan Mathews, a ddaeth yn enwog drwy Gymru gyfan a hefyd ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol.

Dros y blynyddoedd, felly, mae Capel y Trinitî wedi ymestyn allan o furiau'r adeilad a chynnig llawer o ddoniau gan gyfrannu'n llawn i fywyd pentref Pontarddulais.

## YR HEDYN

Yn gryno, er rhoi'r gronyn – i'w oer fedd,  
Marw i fyw mae'r hedyn;  
Gwena mewn glân eginyn,  
Yn wyrth Duw i borthi dyn.

*T. Herbert Hughes (Eryl Menai)*



## CROESO YN NHREGARTH

Ychydig fisoedd yn ôl cawsom gegin newydd hwylus yn Shiloh, Tregarth. Rydym yn awyddus i wneud defnydd ohoni ac i fod yn groesawus. Ers dechrau'r flwyddyn, felly, boom yn agor y drysau un bore'r wythnos er mwyn cynnig man hwylus i bobl gyfarfod am sgwrs. Cofiwch ddod draw am banded os ydych yn y cyffiniau ar fore Gwener, a chofiwch sôn wrth eraill os gwelwch yn dda! – *Ff.R.*



## TARO'R POST

### Annwyl Olygyddion

Gair byr i gydnabod a diolch i W. Arvon Roberts am ei drylwyredd yn "llafurio yn y winllan" i gyhoeddi manylder Planhigion y Beibl, cyhyd. Rwyf wedi elwa'n fawr ar ei wybodaeth a'i ddyfalbarhad. Pryd bynnag y bydd gennyf gwestiwn ynglŷn â mater hanesyddol, hefyd, daw'r ateb ganddo mewn byr o dro ac mae croeso Arvon a Myfanwy bob amser yn gynnes. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Yn gywir, **Wilma Miners**

Yn y post gan Wilma hefyd cawsom y llun hwn o ddsbarth Ysgol Sul yn Seion, Pwllheli tua'r flwyddyn 1922. O'r chwith i'r dde: Richard Jones B.Sc (awdur 'Dyma fy Stori'); Richard Roberts, "Yr Hen Lanc"; John Elfyn Roberts (ewythr i Wilma); John Emrys Roberts, rheithor Garn Dolbenmaen 1958-1974).



# MAB y mans

ARFON HAINES DAVIES

Rhyw ychydig wythnosau yn ôl mi ges alwad gan Robin yn gofyn a fuaswn yn fodlon sgwennu pwt am sut brofiad oedd bod yn fab i weinidog, neu fab y mans. Wel, mi allaf ateb y cwestiwn mewn un gair – “breintiedig”. Ond gan fod y golygydd wedi gofyn am o leiaf 500 o eiriau, gwell ymhelaethu ychydig.

Fel mae'n digwydd, buasai fy nhad wedi bod yn gant oed ym mis Ionawr eleni ac yn naturiol rwyf wedi meddwl cryn dipyn amdano yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gan ein bod ni “bobol y cyfryngau” yn cael ein cyhuddo yn aml nad ydym byth yn hapus heblaw pan fyddwn yn siarad amdanom ni ein hunain, dyma fanteisio ar y cyfle i rannu rhai o fy atgofion amdano fo.

“Dwi ar y ffordd i wlad y gogoniant.” Dyna oedd ychydig eiriau olaf fy nhad. Mi fyddaf yn aml yn meddwl am y geiriau yna, weithiau yn phenfigennus ond yn amlach na pheidio gydag edmygedd. Mi fuaswn wrth fy modd petai gennyf ffraciwn o ffydd fy nhad. Mi roedd yn gwbl argyhoeddedig mai dim ond pennod yn y llyfr mawr oedd ei gyfnod ar y ddaear, ac iddo ef nid oedd dim byd yn sicrach na'r argyhoeddiad, pan fyddai'r bennod hon yn gorffen, y byddai un arall, lawer pwysicach yn cychwyn.

Anaml iawn y byddwn yn dadlau gyda fy nhad oherwydd doedd dim pwynt – byddai o wastad yn ennill! Dwi'n cofio un achlysur pan gefais gyfweiliad ar y radio a gofynnwyd y cwestiwn: a oeddwn yn ystyried fy hun yn Gristion? Fy ateb oedd “na”; fy mod yn ymdrechu yn galed i fod ond yn amlach na pheidio yn methu. Doedd hyn ddim wedi ei blesio! Efallai mai cwestiwn o ddiffiniad sydd wrth wraidd fy mhroblem. Roeddwn yn gwybod yn iawn ers yn blentyn fod fy nhad yn Gristion, nid oherwydd ei fod yn weinidog Wesle ond oherwydd y ffordd yr oedd yn byw ei fywyd, mewn geiriau eraill ei weithredoedd. Daw pobl ataf yn



aml a dweud: “Dwi'n cofio'ch tad yn dod yr holl ffordd o Aberystwyth i weld fy mam pan oedd hi'n wael yn yr ysbyty” neu “Wna i byth anghofio eich tad yn gweddio efo ni ar yr aelwyd pan fu farw Dad, ac yn gwneud hynny mewn ffordd hollol naturiol heb unrhyw deimlad o embaras.” Hoff ddywediadau fy nhad oedd “Un dydd ar y tro”; “Cofia bob amser ddweud diolch”; a “Gwna yn siŵr dy fod yn mynd y filltir arall” – rhywbeth yr oedd yntau yn sicr yn ei wneud yn ei fywyd bob dydd.

Mi gafodd Capel Ebeneser, Caernarfon, ddylanwad mawr ar fy nhad pan oedd yn ifanc. Felly hefyd nifer o ieuenctid eraill y cyfnod fel Geraint a Cledwyn Parry, ill dau wrth gwrs wedi mynd i'r weinidogaeth. Dyma hefyd y cyfnod pryd y cyfarfu fy nhad â Mam, a fu'n gymaint o gefn iddo. Dylwn fanteisio ar y cyfle yma i dalu teyrnged i wragedd gweinidogion...yn aml iawn yn waith llawn-amser ac yn amlach na pheidio yn waith diddiolch hefyd. Dwi'n cofio ffrind i'r teulu yn dweud wrthyf unwaith fod ei gŵr, a oedd yn ddifrifol wael ar y pryd, wedi gofyn i fy nhad “Beth ydi'ch syniad chi o nefoedd?” Ei ateb yn syth oedd... Bod gyda hen ffrindiau yn eistedd ar y wal ym Mhorth yr Aur, Caernarfon, ar ddiwrnod o haf yn edrych ar yr haul yn machlud dros y Fenai. Golygfa y mae'r artist William Selwyn wedi llwyddo i'w pheintio yn berffaith – ond rhaid dweud, cefais dipyn o syndod nad oedd 'na ddim sôn am unrhyw angel na thelyn!

Fel mab y mans cefais fy magu ar aelwyd ble roedd enwau fel Tegla, Tecwyn a Tilsli, heb sôn am Sangster, Weatherhead a Martyn Lloyd Jones yn cael eu crybwyll yn aml. Roedd Dad yn bendant yn edmygu'r pregethwyr “mawr” ac ymhlith y mwyaf yr oedd Donald Soper. Dim syndod felly mai'r unig lun ohonof i yn ei stydi oedd un a

gymerwyd o Dr Soper a finnau gyda'n gilydd pan gefais y fraint o'i gyfweld ar gyfer rhaglen rhyw bum mlynedd ar hugain yn ôl.

Wrth edrych yn ôl fel hyn rhaid dweud fy mod yn hynod ddiolchgar i'r hen drefn efo'r Wesleaid o symud cylchdaith bob rhyw bum mlynedd, a olygodd imi gael y fraint o fyw yn Nhreharris, Llandeilo, Aberystwyth, Treffynnon a Hen Golwyn. Bu'r profiad o fod wedi byw mewn sawl gwahanol ran o Gymru o fantais aruthrol i mi am sawl rheswm. Ni allaf feddwl am unlle gwell i gael eich magu nag Aberystwyth yn y 50au a'r 60au cynnar, cyfnod hynod o hapus i ni fel teulu. Yna symud i ardal ddiwydiannol, hollol wahanol sef Treffynnon yn Sir y Fflint. Dwi ddim yn credu fod plant y mans ddim gwell na gwaeth nag unrhyw blant eraill, dim ond fod y disgwyliadau yn fwy! Doedd cael cerydd gan athro (a do mi gefais dipyn o'r rheiny!) ddim yn ddigon. Rhaid oedd ychwanegu, “a chitha yn fab i weinidog” neu “sgwni be fasa eich tad yn ddeud!” Y gwir amdani oedd fod fy nhad yn berson eitha “cŵl” ac yn amlach na pheidio yr ateb fyddai...dim! Ym mhob ardal y buom yn byw, un peth oedd wastad yn ein synnu fel teulu oedd pa mor hael yr oedd pobol yn gallu bod. Yn blentyn rwy'n cofio caredigrwydd anhygoel y Cardis. Yn aml, byddai sach o lo ne datws yn cael ei gadael ar step y drws, ac wna i byth anghofio haelioni aelodau St Paul, Aberystwyth, yn ystod cyfnod y Nadolig!

Ar gychwyn y darn yma mi wnes i ateb y cwestiwn “Sut brofiad oedd bod yn fab y mans?” drwy ddweud “Breintiedig!”. Dwi wedi newid fy meddwl ... roedd o dipyn yn fwy na hynny!

## Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

Ebrill	Mai
2 Y Cyngor	7 Glannau Maelor
Methodistaid	14 De Gwynedd
9 Môn ac Arfon	21 Powys
16 Dyffryn Conwy	28 Morgannwg
23 Sul y Synod	
30 Gwyliau	



# Gweddïwch am heddwch i Jerwsalem

Gweinidog Wesle a chyn-Gadeirydd Talaith Wolverhampton ac Amwythig yw'r Parchedig John Howard. Ar hyn o bryd mae'n byw ym Methlehem. Mae'n gweithio ers yr haf diwethaf fel Partner mewn Cenhadaeth yn Israel-Palestina, gan geisio hyrwyddo heddwch. Wedi i olygyddion y *Gwyllydydd* gael cyfle i gyfarfod â merch John, Sarah, sydd yn byw yn Sir Fôn, daethom i gysylltiad ag yntau drwy gyfrwng e-bost. Mae'n gofyn yn arbennig am ein gweddïau ni yma yng Nghymru, dros bobl y Wlad Sanctaidd.

Dyma neges a gawsom, i ddarllenwyr y *Gwyllydydd* gan y Parchedig John Howard:

Cyfarchion i chi i gyd. Mae'n adeg brysur yma wrth inni baratoi at y Pasg. Rydym wedi paratoi deunydd defosiynol at ddefnydd Methodistiaid ledled y byd, os hoffech edrych arnynt drwy fynd i'r wefan [www.methodistliaisonjerusalem.wordpress.com](http://www.methodistliaisonjerusalem.wordpress.com).

Jerwsalem, wrth gwrs, yw canolbwynt dathliadau'r Pasg. Caiff pawb ei ddenu i Fethlehem adeg y Nadolig ond i Jerwsalem ar gyfer y Pasg! Yn draddodiadol, mae Cristnogion y Lan Orllewinol wedi ymuno yn y dathlu yn Jerwsalem ond mae'r Rhwystr Gwahanu yn gwneud hynny'n anodd iawn. Mae



Palesteiniaid yn gorfod cael papur caniatâd cyn y gallant deithio i Jerwsalem. Ar Sul y Blodau bydd gorymdaith i lawr Mynydd yr Olewydd ac yna ar fore'r Pasg cynhelir gwasanaeth ar doriad gwawr yn Eglwys y Bedd Sanctaidd (a hefyd weithiau ger y Bedd yn yr Ardd). Gwaetha'r modd caiff llawer eu siomi oherwydd na chânt y caniatâd angenrheidiol i fynd i'r digwyddiadau hyn. Eisoes [ddechrau Mawrth] rwy'n dod ar draws pobl sy'n poeni na fyddant yn cael caniatâd eleni. Mae pob Eglwys yn derbyn papurau i'w rhoi i'r gynulleidfa ac fel rheol byddant yn eu llenwi i mewn fel teulu. Ond yn

aaml, pan ddaw'r caniatâd, bydd rhai o'r teulu yn cael mynd ac eraill ddim. Y llynedd, rhoddwyd caniatâd i'r plant mewn rhai teuluoedd ond nid i'r rhieni! Nid oes neb yn deall sut maen nhw'n penderfynu pwy sy'n cael caniatâd.

Cefais gyfle i fod yn Jerwsalem ar gyfer y Pasg un tro o'r blaen ac mae'n brofiad bendigedig, bythgofiadwy. Mae'n gymaint o drueni nad yw pawb a hoffai fynd yno ac sy'n byw yn lleol yn cael caniatâd i brofi'r uchafbwynt ysbrydol hwn.

Gan dymuno Pasg dedwydd i chi oll a chofiwch weddio dros y bobl yma yn Israel-Palestina.

## GADEWCH I BLANT BYCHAIN



*Bedydd Arthur Albert ym Methel, Prestatyn*



*Bedydd Tiegan Rose yn Saron, Bethel*



*Dathlu Gŵyl Ddewi ym Methel, Prestatyn*

# Tudalen y Plant

## Y PASG



Annwyl Iesu, diolch i ti,  
daethost lawr o'r nefoedd fry;  
ar y ddaear buost yn byw  
bywyd llawn o gariad Duw.

Annwyl Iesu, diolch i ti,  
buost farw drosod fi;  
trwy dy farw a dy fyw  
ti a rennaist gariad Duw.

Annwyl Iesu, diolch i ti,  
nôl yn fyw y daethost ti;  
ni all un peth yn fy myw  
rwystro dim ar gariad Duw.

Annwyl Iesu, diolch i ti,  
ti yw'r lôr a'm Brenin i;  
rhoddaist bwrpas i fy myw  
sef i rannu cariad Duw.

*Delyth Wyn*

### CWIS Y PASG

1. Beth gafodd Jwdas am fradychu Iesu?  
**A** = 30 darn o arian    **B** = 30 darn o aur    **C** = Tŷ ar lan Llyn Galilea
2. Pa un o ffrindiau Iesu ddywedodd nad oedd o ddim yn ei adnabod?  
**A** = Thomas    **B** = Jwdas    **C** = Pedr
3. Pwy wnaeth Pilat ei ryddhau yn lle Iesu?  
**A** = Barabbas    **B** = Lasarus    **C** = Joseff
4. Pa ddiwrnod o'r wythnos oedd hi pan gafodd Iesu ei groeshoelio?  
**A** = Dydd Llun    **B** = Dydd Iau    **C** = Dydd Gwener
5. Pwy oedd y cyntaf i weld Iesu yn fyw ar fore Sul y Pasg?  
**A** = Y garddwr    **B** = Mair Magdalen    **C** = Pedr ac Ioan
6. Lle cafodd yr wyau Pasg cyntaf eu gwneud?  
**A** = Yr Almaen    **B** = Cymru    **C** = Twrci

atebion ar  
tudalen 8